






Defnyddio Llwyfan Torfoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru



ADRAN A: CYCHWYN

<p>1</p>	<p>Agorwch porwr y we a theipiwch <i>torf.llyfrgell.cymru</i> yn y bar cyfeiriad, yna gwasgwch Enter. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn eich annog i ddefnyddio fersiwn diweddar o borwr gwe modern fel Firefox, Chrome neu Safari pan yn cyfrannu i'r Llwyfan yma.</p>	
<p>2</p>	<p>Dewiswch yn y gornel dde uchaf ym mha iaith yr hoffech gyfrannu</p>  <p>Ar y dudalen Hafan mi welwch fanylion am pob prosiect sydd ar y wefan. Dewiswch Llyfrau Ffoto, yna Mwy am y Prosiect, yna Cychwyn. Dewiswch un o'r llyfrau ffoto.</p>	 <p><small>Llyfr Ffoto Llansteffan Album</small> <small>Llyfr Ffoto Abergeldie Castle Album</small></p>
<p>3</p>	<p><u>Cyn cychwyn cyfrannu:</u> Os ydych yn ymweld â'r safle am y tro cyntaf bydd angen i chi gofrestru trwy glicio ar y ddolen Cofrestru yng nghornel dde uchaf y sgrin, yna dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin nesaf i greu cyfrif. Os ydych yn dychwelyd i'r safle, medrwch gychwyn ar y gwaith yn syth trwy glicio ar Mewngofnodi a nodi manylion eich cyfrif.</p>	
<p>4</p>	<p>Ar y dudalen nesaf medrwch ddewis pa ffoto yr hoffech ei anodi trwy glicio ar y ffoto neu, os ydych yn dychwelyd i'r safle, medrwch barhau gyda ffoto rydych eisoes wedi cychwyn ei anodi. Mae'r cylch yng nghornel dde isaf y ffoto yn dynodi ei statws:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cylch gwyrdd yn dynodi bod anodiadau ar gyfer y ffoto yma wedi eu cwblhau; • Mae'r cylch melyn yn dynodi bod rhywun wedi cychwyn anodi'r ffoto yma, ond nid yw wedi ei gwblhau; • Os nad oes cylch o dan y ffoto, nid oes gwaith wedi cychwyn ar y ffoto yma. 	

Os ydych am weithio ar ffoto sydd heb ei anodi ewch i **Adran B**.

Os ydych am olygu ffoto sydd eisoes wedi ei anodi yn rhannol ewch i **Adran C**.





ADRAN B: ANODI FFOTO AM Y TRO CYNTAF

<p>1</p>	<p>Cliciwch ar y ffoto yr hoffech ei anodi.</p> <p>Dewiswch un o'r tasgau. Medrwc hofran ar y marciau cwestiwn am ganllawiau.</p> <div data-bbox="714 309 1115 536"> <p>Dewiswch un o'r tasgau isod</p> <p>Tagio elfennau o fewn y ffoto ?</p> <p>Y ffoto cyfan ?</p> </div>	<p>Medrwc ddefnyddio'r arwyddion '+' a '-' neu'r olwyn ar eich llygoden i sgrolio i mewn ac allan.</p> 
<p>2</p>	<p>Tagio elfennau o fewn y ffoto:</p> <p>Llusgwch y blwch coch ac addaswch ei faint fel ei fod yn amlinellu gwrthrych neu elfen o fewn y ffoto. Cliciwch 'Arbed' o dan y blwch.</p> <p>Cychwynwch deipio eich tag. Bydd y system yn cynnig tagiau – dewiswch y tag mwyaf addas o'r gwymplen.</p> <p>Rydym yn defnyddio tagiau Wicidata. Mae defnyddio geirfa reoledig, safonol bob amser yn gosod rhai cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei dagio, ond mae'n golygu y bydd y cynnwys yn llawer mwy chwiliadwy.</p> <p>Gan amlaf, mae tagiau eisoes yn yr eirfa, ond o dan enw ychydig yn wahanol. Os na cheir hyd i'ch tag, neu os nad yw'r disgrifiad yn cyfateb i'r hyn rydych chi'n ei weld, yna dylai aralleirio neu ail-eirio'r tag helpu i ddod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano - e.e. ar gyfer 'tu mewn eglwys' dylech ddefnyddio 'tu mewn ac 'eglwys' fel dau dag ar wahân.</p> <p>Efallai y bydd cynnal chwiliad ehangach (gan gynnwys edrych am erthygl Wicipedia ar yr eitem rydych chi am ei dagio) o gymorth.</p> <p>Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch ar Nesaf > ac yna ar y botwm coch Arbed.</p> <p>I dagio mwy o elfennau o fewn y ffoto, cliciwch ar "Parhau i anodi'r eitem yma" gan ail-adrodd y camau uchod.</p> <p>Mae angen tagio pob elfen sydd i'w weld yn y ffoto.</p>	 <div data-bbox="1787 632 2051 874"> <p>Tagio elfennau o fewn y ffoto</p> <p>Symudwch y blwch coch i amlinellu gwrthrychau neu 'bethau' o fewn y ffoto ac yna tagiwch nhw (h.y. dywedwch beth ydyn nhw). E.e. ceir, pobl, coed, adeilad, simne, ayb.</p> <p>Dewiswch fan ar y dudalen</p> <p>Teipiwch ac yna dewiswch y tag perthnasol</p> <p>Nesaf ></p> </div> <p>A hoffech ychwanegu un arall?</p> <p>Parhau i anodi'r eitem/tudalen yma</p>

<p>3</p>		<p>Y ffoto cyfan:</p> <p>Llwgwch y blwch coch ar draws ac addaswch ei faint fel ei fod yn amlinellu y ffoto rydych yn ei ddisgrifio. Cliciwch ‘Arbed’ o dan y blwch.</p> <p>Dewiswch y ‘math o dudalen’ o’r rhestr.</p> <p>Nodwch yn y blychau testun ar y dde y gwybodaeth a welwch ar, neu o gwmpas, y ffoto. Mae cyfle i nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Capsiwn neu destun; • Y dyddiad y tynnwyd y ffoto; • Lleoliad y ffoto (medrwch nodi’r wlad yn unig os nad oes mwy o fanylion). <p>Sylwer nad yw pob ffoto yn cynnwys gwybodaeth.</p> <p>Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch ar Nesaf > ac yna ar y botwm coch Arbed.</p> <p>Os oes mwy nag un ffoto ar y dudalen, cliciwch ar “Parhau i anodi’r eitem yma” gan ail-adrodd y camau uchod.</p> <p>Mae angen disgrifio pob ffoto sydd ar y dudalen.</p>
<p>4</p>	<p>Gweld yr anodiadau:</p> <p>Mae’r anodiadau yn cael eu harddangos fel bawdluniau yn union islaw’r ffoto.</p>	

<p>5 <u>Cwblhau:</u></p> <p>Os fyddwch yn gorffen cofnodi a thagio pob elfen o'r ffoto, cliciwch y botwm ar waelod ochr dde y sgrin i ddynodi bod y dudalen wedi ei gwblhau. Bydd hyn yn newid ei statws i wyrdd (Wedi ei gwblhau).</p>	 <p>Llyfrnodwyd</p>  <p>Fflagio fel anaddas</p>  <p>Wedi ei gwblhau</p>
<p>6 <u>Symud i'r ffoto nesaf:</u></p> <p>Cliciwch ar 'Delwedd nesaf' yn y gornel dde uwchben y ffoto i symud ymlaen i'r ffoto nesaf.</p>	 <p>Delwedd nesaf →</p>  <p>LLYFRAU FFOTO</p>

ADARN C: GOLYGU EITEM SYDD EISOES WEDI EI ANODI YN RHANNOL

<p>1 Os ydych am:</p> <ol style="list-style-type: none"> Olygu eich anodiadau a dychwelyd at ffoto rydych eisoes wedi cychwyn ei dagio; neu Olygu tagiau sydd wedi eu cychwyn gan eraill ond sydd heb eu cwblhau; <p>Yn gyntaf bydd angen i chi glicio ar y ffoto i'ch tywys i'r dudalen anodi.</p>	
<p>2 Islaw'r ddelwedd fe welwch fawdluniau sy'n cynrychioli'r anodiadau sydd eisoes wedi eu creu. Cliciwch ar yr anodiadau er mwyn i chi fedru darllen y tagiau (ar ochr dde y dudalen). Os oes angen golygu'r tagiau, cliciwch ar Mae angen mwy o waith ar y tudalen, yna Heb ei gwblhau a bydd deialog newydd yn ymddangos gyda botwm < Golygu.</p> <p>< Golygu</p> <p>Cliciwch ar y botwm yma i olygu'r tagiau, yna cliciwch Nesaf > ac yna'r botwm coch Arbed pan fyddwch wedi gorffen.</p> <p>Os byddwch yn gorffen tagio pob elfen o fewn y ffoto medwrch ddefnyddio'r botwm ar y dde ar waelod y sgrin i ddynodi bod y dudalen wedi ei gwblhau, fel yng nghan 4 yn Adran B.</p>	<p>Anodiadau gan ddefnyddwyr</p> <p>Crewyd yr anodiadau yma gan y gymuned, mae'n bosib y bydd angen gwaith ychwanegol i'w cwblhau.</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around;"> <div data-bbox="1189 898 1442 1230">  <p>Crewyd gan Katie, 7 mis yn ôl</p> </div> <div data-bbox="1471 898 1724 1230">  <p>Crewyd gan Katie, 7 mis yn ôl</p> </div> <div data-bbox="1753 898 2007 1230">  <p>Crewyd gan Katie, 7 mis yn ôl</p> </div> </div>
<p>3 Os na fedrwch weld y ffoto yn glir am fod nifer o flychau anodi ar hyd y ffoto, cliciwch y botwm togll yng nghornel uchaf chwith y ffoto – bydd hyn yn cuddio'r blychau o'r glowg.</p>	